“Talu am Ofal”: Canllaw i’r Papur Gwyrdd

Croeso!

- Mae’r Papur Gwyrdd Darllen Hawdd yn hir iawn.
- Dyma ganllaw byr i’r Papur Gwyrdd.
- Mae’n dweud wrthych beth sydd ym mhob pennod o’r Papur Gwyrdd.
- Os ydych yn darllen y canllaw hwn **yn unig,** ni allwch ddweud eich barn am bopeth yn y Papur Gwyrdd.
- Y peth gorau yw darllen y canllaw hwn **a’r** Papur Gwyrdd. Yna cewch gyfle i ddweud mwy.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gredu am ofal cymdeithasol?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu:

- gwaith pawb yng Nghymru yw gwneud yn siwr bod ein holl ddinasyddion yn gallu cael y gofal a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt
- mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn deg

- gallwn ni i gyd weithio gyda’n gilydd i ddod o hyd i ffordd Gymreig o feddwl am a darparu gofal a chefnogaeth

Ond nid oes gan Gymru y pŵer i wneud yr holl reolau ei hun. Mae Llywodraeth y DU yng ngofal pethau fel treth a budd-daliadau. Felly ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu beth sydd orau i Gymru a mynd ymlaen i’w wneud e.

Rhan fwyaf y lluniau o Change Picturebank.
Darllen hawdd gan Social Interface

Beth sy'n digwydd nawr?

- Mae cronfa o arian cyhoeddus i dalu am ofal a chefnogaeth. Daw'r arian o'n trethi.

- Mae pobl yn cael arian allan o'r gronfa pan fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu helpu neu eu bod yn cael Budd-daliadau Anabledd

- Nid yw'r gronfa yn talu am yr holl ofal a chefnogaeth yng Nghymru. Mae rhai pobl yn trefnu eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain. Nid ydynt yn mynd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o gwbl.



- Mae rhai pobl yn gofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol drefnu eu gofal a'u cefnogaeth. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol reolau i weithio allan a oes angen iddynt helpu'r person a faint mae'n rhaid i'r person dalu. Mae'r rheolau'n edrych ar faint o arian sydd gan y person, a beth y mae'r person yn berchen arno (ee os ydynt yn berchen ar dŷ).

A yw'n system dda?

- Mae Cymru'n newid, ac nid yw'r system yn gweithio'n dda nawr [Gweler Pennod 1]

- Mae angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol newid fel bod gofal a chefnogaeth yn gwella dros Gymru gyfan. [Gweler Pennod 2]

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod y rheolau ar gyfer cael arian allan o'r gronfa yn annheg. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd a mwy teg i rannu'r arian yn y gronfa. [Gweler Pennod 3]

Rhan fwyaf y lluniau o Change Picturebank.
Darllen hawdd gan Social Interface

Pam mae'n rhaid i ni newid y system?

Pan ddechreuodd y system:

- roedd pobl yn disgwyl trefnu eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain, gyda help gan eu teuluoedd
- roedd awdurdodau lleol yn helpu dim ond os nad oedd dewis arall
- roedd pobl yn ddiolchgar am unrhyw help, ac yn hapus i bobl broffesiynol benderfynu pa help yr oedden nhw'n ei gael



Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi:

- derbyn mwy o gyfrifoldeb am ofal a chefnogaeth pobl
- gwneud llawer o ddeddfau a rheolau am fudd-daliadau anabledd a gofal cymdeithasol. Nid yw'r deddfau bob amser yn mynd gyda'i gilydd

Mae angen i ni newid y system **nawr** oherwydd

- does dim digon o arian
- yn y dyfodol, bydd angen gofal a chefnogaeth ar fwy o bobl hŷn

- mae llawer o bobl anabl a hŷn yn disgwyl mwy mewn bywyd. Maen nhw am wneud eu penderfyniadau eu hunain am ofal a chefnogaeth

- Mae Cymru wedi newid, ac mae syniadau newydd gennym am ofal a chefnogaeth felly mae'r ffordd yr ydym yn gwneud gofal a chefnogaeth yn gorfod newid

Rhan fwyaf y lluniau o Change Picturebank.
Darllen hawdd gan Social Interface



Yr opsiynau

1 Mae pawb yn talu am eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain. Nid yw'r Llywodraeth yn talu amdano o gwbl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud bod hyn yn syniad gwael

neu

2 Mae'r Llywodraeth yn talu am bopeth. Byddan nhw'n defnyddio arian o drethi i dalu. Felly bydd rhaid i bobl dalu llawer mwy o dreth. Mae Llywodraeth y DU yn dweud bod hyn yn syniad gwael

neu

3 Mae'r Llywodraeth yn talu rhan o'r gost i bawb. Ni fydd pobl dlawd yn talu unrhyw beth. Bydd rhaid i bob â llawer o gynilon, arian neu eu tŷ eu hunain dalu peth. Mae Llywodraeth y DU yn dweud bod hyn yn syniad da. Maen nhw'n ei alw yn opsiwn "Partneriaeth".

Yn yr opsiwn Partneriaeth, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl dalu am beth o'u gofal. Dyma rai syniadau i wneud yn siwr bod pobl yn gallu talu eu rhan nhw:

- **Prynu yswiriant**. Mae hyn yn dda oherwydd rydych yn gwybod faint o arian bydd yr yswiriant yn ei gostio. Yna bydd eich gofal a'ch cefnogaeth am ddim. Gallwch brynu yswiriant gan gwmni preifat, neu efallai gall y Llywodraeth ddechrau cynllun yswiriant.

- **Gwneud i bawb ymuno â chynllun y Llywodraeth**. Mae hyn yn dda oherwydd bydd yn rhatach nag yswiriant. Ond efallai bydd rhai pobl yn grac oherwydd nid ydynt am ymuno â'r cynllun

Rhan fwyaf y lluniau o Change Picturebank.
Darllen hawdd gan Social Interface

Mwy am dalu am eich rhan chi

Ni fydd rhai i bobl dlawd dalu unrhyw beth.

Bydd rhaid i bobl dalu rhywbeth os oes ganddyn nhw:

- Mwy na £22,000 o gynilon

- Llawer mwy o arian bob mis nag y mae pobl ar fudd-daliadau yn ei gael
- Eu tŷ eu hunain

Gall pobl dalu:

- Pan fyddan nhw'n ymddeol
- Ychydig bob mis pan maent wedi ymddeol

- Ychydig bob mis pan fyddan nhw'n fwy ifanc ac yn gweithio
- Drwy ysgrifennu i lawr y byddan nhw'n talu pan fyddan nhw'n marw

Dweud eich barn

- Mae angen i ni wybod beth ydych **chi** yn ei feddwl.
  [Mae Pennod 4 yn dweud wrthych sut i ddweud eich barn]

- Mae rhestri o gwestiynau yn y Papur Gwyrdd Darllen Hawdd. Darllenwch y cwestiynau a dweud wrthon ni beth yw eich barn.

- Mae'n rhaid i chi ddweud wrthon ni cyn
  28ain Chwefror 2010.

Rhan fwyaf y lluniau o Change Picturebank.
Darllen hawdd gan Social Interface